

Llawdriniaeth twll clo i drin pledren orweithgar drwy ei hehangu gan ddefnyddio adran o'r coluddyn

*Mae 'arweiniad
Techlechyd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth twll clo i ehangu'r bledren yn y GIG i drin pobl â phledren orweithgar. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio pledren orweithgar na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Er nad oes llawer o dystiolaeth gadarn ynghylch pa mor dda mae'r driniaeth yn gweithio, nid yw'n codi unrhyw bryderon mawr, ac mae llawdriniaeth agored ar gyfer ehangu'r bledren wedi hen sefydlu.

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â phledren orweithgar, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dylai tîm o arbenigwyr sydd â phrofiad rheoli anymataliaeth wrinol a chyflawni llawdriniaeth adluniol twll clo gymhleth benderfynu pwy sy'n cael y driniaeth hon, a'i chyflawni.

Mae NICE yn gofyn i lawfeddygon anfon gwybodaeth am bawb a gaiff y driniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i Gymdeithas Llawfeddygon Wrolegol Prydain er mwyn gallu archwilio diogelwch y driniaeth dros gyfnod o amser.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer pledren orweithgar. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Llawdriniaeth twll clo i drin pledren orweithgar drwy ei hehangu gan ddefnyddio adran o'r coluddyn

Yr enw meddygol ar gyfer y driniaeth hon yw 'systoplasti cynyddol laparosgopig (gan gynnwys systoplasti clam)'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma – siaradwch â'ch llawfeddyg i gael disgrifiad llawn.

Nod y driniaeth yw gwneud y bledren yn fwy a lleihau pwysedd. Nod gwneud y bledren yn fwy yw lleihau natur frys ac atal anymataliaeth a lleihau'r angen i wacáu'r bledren mor aml. Cyflawnir y driniaeth hon yn draddodiadol drwy ddefnyddio llawdriniaeth agored. Nod y driniaeth twll clo yw bod y claf yn colli llai o waed, ei fod yn gwella'n gynt, yn cael llai o boen, yn aros am lai o amser yn yr ysbyty a bod ei greithiau'n llai.

Caiff ei chyflawni tra bod y claf dan anesthetig cyffredinol, drwy 4 neu 5 toriad yn y croen. Torrir y bledren ar agor a thorrir darn o'r coluddyn allan a'i bwytho dros yr agoriad. Gosodir cathetr (tiwb tenau, gwag) yn y bledren, naill ai drwy'r abdomen neu drwy'r tiwb sy'n cario wrin o'r bledren. Caiff hwn ei dynnu 2-3 wythnos yn ddiweddarach, unwaith y bydd y bledren wedi gwella ac nid yw'n gollwng. Efallai y bydd angen i rai cleifion osod cathetr pan fyddant eisiau pasio wrin ar ôl cael y driniaeth. Efallai y bydd angen i gleifion hefyd 'olchi'r bledren' drwy ddefnyddio cathetr er mwyn lleihau'r risg o haint a cherrig yn y bledren. Bydd hefyd angen iddynt wacáu eu pledren (naill ai'n arferol neu drwy ddefnyddio cathetr) o leiaf bob 4 awr er mwyn aros yn sych ac osgoi rhwygo'r bledren.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich llawfeddyg yn credu bod y driniaeth hon yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

Mae NICE wedi penderfynu bod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich llawfeddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am eich triniaeth i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- A fydd angen archwiliadau rheolaidd arnaf yn yr hirdymor?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 8 astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 17 o gleifion, gwellodd rheolaeth ar y bledren o gyfartaledd o 14.9 pwynt i 1.6 pwynt ar raddfa rheoli'r bledren pan edrychwyd arnynt ar ôl 17 mis. Gallai pledren y cleifion ddal llawer mwy o wrin mewn 4 astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 31 o gleifion pan edrychwyd arnynt rhwng 4 wythnos ac 16 mis yn ddiweddarach. Roedd y pwysedd ym mhledren y cleifion hefyd yn is mewn 29 o gleifion mewn 2 o'r astudiaethau pan edrychwyd arnynt ar ôl 13 neu 16 mis. Mewn astudiaeth o 23 o gleifion, edrychwyd ar 19 ohonynt ar ôl blwyddyn. Roeddent yn defnyddio cathetr i wacáu eu pledren bob 4-5 awr ac nid oedd anymataliaeth ar yr un ohonynt rhwng y gwacáu. (Cyn y driniaeth, roedd anymataliaeth ar 9 ohonynt). Mewn astudiaeth arall, o fewn mis i'r driniaeth, roedd y 6 chlaf yn 'gyffredinol sych' am 2-3 awr rhwng defnyddio cathetr.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai prif nodau'r driniaeth yw lleddfu'r symptomau, gwella'n gyflym ac arhosiad byrrach yn yr ysbyty (o gymharu â llawdriniaeth agored), llai o angen am leddfu poen a golwg well (llai o greithio).

Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 23 o gleifion, roedd gan un claf gerrig yn y bledren pan edrychwyd arnynt ar ôl 13 mis. Bu'n rhaid tynnu'r cerrig drwy lawdriniaeth.

Yn yr un astudiaeth, rhwygodd pledren 1 claf gan nad oedd yn ei wacáu bob 4 awr drwy ddefnyddio cathetr fel yr argymhellwyd. Cafodd y rhwyg ei thrwsio a gosodwyd cathetr am 4 wythnos. Yn yr astudiaeth o 17 o gleifion, cafodd 1 groniad o waed yn yr haen o amgylch un o'r cyhyrau yn y stumog, a achoswyd gan un o'r offer llawfeddygol yn ystod y driniaeth. Gwnaeth coluddyn claf arall roi'r gorau i weithio dros dro. Gwnaeth pledren un claf ollwng drwy'r pwythau yn yr astudiaeth o 6 chlaf - gwelodd hyn heb lawdriniaeth bellach.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod problemau posibl yn cynnwys gwaedu, haint, haint yn y gwaed, niwed i'r coluddyn, y coluddyn neu'r bledren yn gollwng, a phroblemau metaboledd.

Rhagor o wybodaeth am bledren orweithgar

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar bledren orweithgar, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk/aboutguidance

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlehyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'systoplasti cynyddol laparosgopig (gan gynnwys systoplasti clam)' Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG207

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8101-4

N2089 1P Dec 09

Gwybodaeth am arweiniad Techlehyd NICE 207

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.